OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 1040 (Cy.100)

BWYD, CYMRU

Diwygio'r Rheoliadau Hysbysiadau o Farchnata Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud - -	*27 Mawrth 2007*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 17(1), 26(1)(a) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), ac a freiniwyd ynddo ef bellach(**2**).

Yn unol ag adran 48(4) o'r Ddeddf honno, mae wedi rhoi ystyriaeth i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Mae'r Rheoliadau hyn—

(a) yn dwyn yr enw Rheoliadau Hysbysiadau o Farchnata Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Cymru) 2007

(b) yn dod i rym ar 1 Ebrill 2007; ac

(c) maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yr un ystyr â "*food authority*" yn adran 5(1A) a (3)(a) a (b) o'r Ddeddf;

(**1**) 1990 p.16.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf adeg gwneud yr offeryn hwn gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 (OJ Rhif L100, 8.4.2006, p.3).

ystyr "bwyd DMN" ("*PNU food*") yw bwyd at ddefnydd maethol neilltuol—

(a) y mae, oherwydd ei gyfansoddiad arbennig neu y broses o'i gynhyrchu, gwahaniaeth amlwg rhyngddo â bwyd a fwriadwyd i'w fwyta'n arferol, a

(b) sy'n cael ei werthu mewn modd sy'n dangos a ydyw'n addas ar gyfer y diben maethol penodol honedig,

ond nad yw'n dod o fewn unrhyw un o'r dosbarthiadau a ganlyn—

(i) fformwlâu babanod a fformwlâu dilynol,

(ii) bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn a bwydydd babanod ar gyfer babanod a phlant ifanc,

(iii) bwyd y bwriedir ei ddefnyddio mewn deietau cyfyngu-ar-ynni er mwyn colli pwysau,

(iv) bwydydd deietegol at ddibenion meddygol arbennig,

(v) bwydydd sydd wedi'u bwriadu i ddiwallu ymdrech gyhyrol sylweddol, yn arbennig ar gyfer sbortsmyn, a

(vi) bwydydd ar gyfer pobl sy'n dioddef gan anhwylderau carbohydrad-metaboliaeth (clefyd siwgr);

ystyr "defnydd maethol neilltuol" ("*particular nutritional use*") yw bodloni gofynion maethol neilltuol—

(a) rhai categorïau o bobl y mae eu prosesau treulio, neu eu metaboledd yn afreolus, neu

(b) rhai categorïau o bobl y mae eu cyflwr seicolegol yn golygu ei bod o fudd arbennig iddynt fwyta, a hynny dan reolaeth, unrhyw sylwedd mewn bwyd, neu

(c) babanod neu bobl ifanc sydd mewn iechyd da;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys meddu gyda'r bwriad o werthu a chynnig, amlygu neu hysbysebu (ac eithrio gyda label neu ddeunydd lapio) gyda'r bwriad o werthu;

ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 89/398/EEC ar gyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud â deunyddiau bwyd a fwriedir ar gyfer defnydd maethol penodol(**4**).

(2) Mae i ymadroddion Saesneg eraill a'r ymadroddion Cymraeg cyfatebol a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn y Gyfarwyddeb yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddynt yn y Gyfarwyddeb honno.

Cyfyngiad ar werthu

3.—(1) Ni chaiff neb mewn perthynas â cynnyrch bwyd DMN o fath neilltuol—

(a) sydd yn weithgynhyrchydd neu'n fewnforiwr y cyfeirir ato yn erthygl 9 o'r Gyfarwyddeb, ond

(b) sydd wedi methu â chydymffurfio —

(i) â gofyniad i hysbysu'r awdurdod cymwys, fel y cyfeirir ato ym mharagraff 1 neu 2 o'r Erthygl honno, neu

(ii) â gofyniad i ddangos unrhywbeth i'r awdurdod cymwys, fel y cyfeirir ato ym mharagraff 3 o'r Erthygl honno,

werthu cynnyrch bwyd DMN o'r math hwnnw.

(**4**) OJ Rhif L186, 30.6.89, t.27, fel y'i diwigiwyd ddiwethaf adeg gwneud yr offeryn hwn gan Reoliad (EC) Rhif 1882/2003 (OJ Rhif L284, 31.10.2003, t.1). Disodlwyd Adtodlen 1 i Gyfarwyddeb y Cyngor 89/398/EEC gan Gyfarwyddeb 1991/41/EC (OJ Rhif L172, 8.7.99, t.38).